Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG45561

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Gorffennaf 2022

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL **© Hawlfraint y Goron** **ISBN ddigiol 978-1-80364-484-4**

Trosolwg

Crynodeb o ymatebion ymgynghoriad Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Drafft (Tachwedd 2021)

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

ebost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol
Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Linc i'r dogfennau ymgynghori: https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad **3**

Ynglŷn â'r ymgynghoriad 3

Methodoleg 4

Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl y gallai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy? 5

Cwestiwn 2: Sut all Llywodraeth Cymru annog mwy o ymwneud â'r model tai cydweithredol neu'r model tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru? 6

Cwestiwn 3: Beth yw'r heriau wrth geisio cynnal digon o fuddsoddiad a diddordeb lleol mewn mentrau cymdeithasol? 7

Cwestiwn 4: Pa gymorth neu gymhellion allai Llywodraeth Cymru eu cynnig fel bod cynllun o'r fath yn ennyn diddordeb? 8

Cwestiwn 5: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Grŵp Llywio Arwerthwyr Tai yn ffordd ymarferol ac effeithiol o helpu arwerthwyr tai i chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu cymunedau Cymraeg? 9

Cwestiwn 6: Sut all arwerthwyr tai gael eu hannog neu eu cymell i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio? 9

Cwestiwn 7: A fyddai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd eiddo? 10

Cwestiwn 8: Beth arall allai helpu i wneud yn siŵr bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad dai? 10

Cwestiwn 9: Sut all Llysgenhadon Diwylliannol ymgysylltu ar lefel gymunedol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a datblygu gwell dealltwriaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'n hiaith? 11

Cwestiwn 10: Pa ffactorau penodol ddylai'r comisiwn eu hystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol? 12

Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, pa heriau fydd y comisiwn yn eu hwynebu? 13

Cwestiwn 12: A oes yna unrhyw enghreifftiau, arferion neu achosion o ddiddordeb a allai helpu'r comisiwn i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith? 14

Cwestiwn 13: Beth (arall), ynghyd â chymorth tai, y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau? 15

Cwestiwn 14: A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar unrhyw un o'r cynlluniau a nodir uchod? 16

Cwestiwn 15: Pa fath o ymyraethau lleol hoffech chi eu gweld i hyrwyddo pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, annog pobl i'w cadw ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld yn ein cymunedau? 17

Cwestiwn 16: Beth arall ddylai gael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg? 18

Cwestiwn 17: Pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud i'r cynigion sydd yn y cynllun hwn er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol? 18

Cwestiwn 18: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt. 19

Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr *Ymgynghoriad ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Arfaethedig*. Mae'r papur hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad, ac yn nodi'r negeseuon a'r themâu allweddol a gyflwynir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg sy'n cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 23 Tachwedd 2021 a daeth i ben ar 22 Chwefror 2022. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yma:

https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 776 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Cyflwynwyd 500 drwy ffurflen ar-lein a chyflwynwyd 276 drwy ffurflen wedi ei lawrlwytho a'i ddychwelyd ar ffurf dogfen. Nid oedd rhai o'r ymatebion hyn yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol; adolygwyd yr ymatebion ansoddol nad oeddent yn dilyn strwythur y cwestiynau, a dadansoddwyd yr adrannau a oedd yn cyd-fynd â'r cwestiynau ochr yn ochr â'r atebion eraill i'r cwestiwn hwnnw.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru ymatebion hefyd a oedd yn dilyn templedi gan bedair ymgyrch:[1]

- Cyflwynwyd tua 440 o ymatebion a oedd yn dilyn templed ymatebion ymgyrch Hawl i Fyw Adra.
- Cyflwynwyd 24 o ymatebion a oedd yn dilyn templed ymatebion ymgyrch Cymdeithas yr Iaith.
- Cyflwynwyd 7 o ymatebion a oedd yn dilyn templed ymatebion ymgyrch Dyfodol yr Iaith.
- Cyflwynwyd 8 o ymatebion a oedd yn dilyn templed ymatebion Cylch yr Iaith.

Dadansoddwyd y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion gyda'i gilydd, gan gynnwys ymatebion a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd. Cymharwyd y themâu hyn â'r prif themâu a ddeilliodd o'r ymatebion eraill ac eithrio'r ymgyrchoedd. Canfu'r dadansoddiad hyn nad oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a godwyd yn yr holl ymatebion a'r ymatebion ac eithrio'r ymatebion ymgyrch. Yn sgil hynny, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion yn unig.

[1] Mae'n anodd rhoi ffigur pendant am nifer yr ymatebion ymgyrch. Roedd rhai amrywiadau mewn ymatebion unigol a oedd yn dilyn templed ymgyrch, a rhai ymatebwyr wedi dilyn y templed ar gyfer rhai cwestiynau yn unig, neu wedi ychwanegu at yr atebion. Cofnodwyd a dadansoddwyd yr holl ymatebion ochr yn ochr ag ymatebion eraill.

Methodoleg

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o’r data ansoddol a gafwyd yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Yn y dadansoddiad thematig, cafodd y safbwyntiau, y sylwadau a’r materion a godwyd gan yr ymatebwyr eu categoreiddio’n themâu cyffredinol. Nod y dadansoddiad oedd ceisio nodi’r themâu a oedd yn codi amlaf yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Roedd y broses o gynnal y dadansoddiad hwn fel a ganlyn:

1. Adolygwyd sampl ar hap o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn gan ddau ymchwilydd (pob un yn adolygu hanner gwahanol o'r sampl).
2. Cafodd yr ymatebion yn y sampl eu codio'n thematig gan y ddau ymchwilydd, i nodi'r themâu a oedd yn codi amlaf. Cymharodd yr ymchwilwyr y themâu a nodwyd a chytunwyd ar set o godau i'w defnyddio ar gyfer yr ymatebion a oedd yn weddill.
3. Yna adolygodd un o'r ymchwilwyr yr holl ymatebion a oedd yn weddill i bob cwestiwn er mwyn gwirio bod y themâu a nodwyd yng Ngham 2 yn parhau i fod yn berthnasol.
4. Sicrhaodd y broses hon bod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadolygu yn ystod y dadansoddiad.

Cyfyngiadau’r fethodoleg

Mae’r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos safbwyntiau’r ymatebwyr hynny a ddewisodd gwblhau holiadur yr ymgynghoriad. Mae hyn yn golygu na ellir ystyried bod yr ymatebion yn cynrychioli ymatebion y boblogaeth yn gyffredinol, na’r rhanddeiliaid y mae’r cynllun gweithredu hwn yn effeithio arnynt.

Mae’r canfyddiadau’n adlewyrchu’r themâu allweddol a gynrychiolwyd amlaf yn y sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr, gan gynnwys eu sylwadau ar themâu na ofynnwyd cwestiynau uniongyrchol amdanynt. Mae hyn yn golygu bod rhai o’r themâu a nodwyd yn y dadansoddiad yn mynd y tu hwnt i gwmpas y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

Adrodd ar y canfyddiadau

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r themâu sy’n codi’n aml yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Mae’r themâu hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Drwy’r adroddiad cyfan, mae’r themâu a’r pwyntiau a gyflwynir yn deillio o sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad ac nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau awduron yr adroddiad.

Cyflwynir detholiad o ddyfyniadau hwnt ac yma drwy’r adroddiad i ddangos y pwyntiau a’r themâu a godwyd.

Cwestiwn 1: Ydych chi’n meddwl y gallai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy?

Roedd mwyafrif clir o’r ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a wnaeth ymateb gan ddilyn templed ymgyrch a’r rheini nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, o’r farn y **gallai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy**. Ymysg y rhai oedd yn cytuno, nododd rhai bod hyn yn **amodol** ar ffactorau penodol, er enghraifft sut y gweithredir y cynigion, lefelau cyllid ayyb (ymhelaethir ar y themâu hyn isod). Mynegodd lleiafrif bach farn gymysg mewn ymateb i’r cwestiwn ac **roedd lleiafrif bach o’r farn na fyddai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned yn helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy**. Nododd lleiafrif bach o ymatebwyr nad oedd ganddynt farn ar y cwestiwn hwn.

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o’r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o’r ymgyrchoedd) â’r rhai a ddeilliodd o’r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Fel y nodwyd uchod, dywedodd llawer o ymatebwyr fod eu cefnogaeth i'r model tai cydweithredol arfaethedig yn amodol. Mae rhai o'r amodau mwyaf cyffredin a ddarperir yn cynnwys:

- Byddai'n rhaid i'r model tai ganolbwyntio ar anghenion y gymuned a dylai'r gymuned leol gael cyfleoedd digonol ac ystyrlon i lunio neu ddylanwadu ar sut datblygir y model.
- Byddai angen digon o arian y tu ôl i'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol.
- Byddai angen rheoli a monitro'r model tai yn ofalus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni.
- O gofio bod llawer o gwmnïau cydweithredol neu fentrau cymdeithasol cymunedol presennol yn cael eu cefnogi gan waith gwirfoddolwyr ymroddedig, byddai angen sicrhau nad yw llwyddiant y model arfaethedig yn ddibynnol ar wirfoddolwyr.

Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i nodi, er eu bod yn cytuno y gallai model tai cydweithredol neu dai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael gafael ar dai fforddiadwy, roeddent yn poeni y byddai'r cynllun hwn yn dal i fod yn annigonol:

> *“pryderaf faint fydd hyd a lled y tai cydweithredol ac na fyddent yn ddigonol i ddiwallu anghenion y sir ac i ymateb i’r argyfwng dai”*

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr fodel amgen i'r model arfaethedig a oedd yn cynnwys enghreifftiau megis: (i) adeiladu mwy o dai cymdeithasol; (ii) rhaglen cyfnewid tai; (iii) cymorth ariannol uniongyrchol i bobl leol i brynu tai.

O'r lleiafrif o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno y gallai'r model tai arfaethedig helpu pobl leol i gael gafael ar dai fforddiadwy, cododd nifer fach bryderon ynghylch y posibilrwydd o wahaniaethu cymdeithasol. Roedd rhai yn pryderu y byddai'n rhaid i bobl leol fyw mewn ardal gyfyngedig ar wahân ac mai'r opsiwn a ffefrir yw galluogi siaradwyr Cymraeg lleol i gystadlu yn y farchnad rydd.

Cwestiwn 2: Sut all Llywodraeth Cymru annog mwy o ymwneud â’r model tai cydweithredol neu’r model tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o’r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o’r ymgyrchoedd) â’r rhai a ddeilliodd o’r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cynigiodd ymatebwyr nifer o syniadau am sut y gallai Llywodraeth Cymru annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru. Rhestrir rhai o'r awgrymiadau mwyaf poblogaidd isod, gyda’r awgrymiadau mwyaf poblogaidd wedi eu nodi’n gyntaf.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn mai ffordd effeithiol o annog cyfranogiad pellach yn y modelau arfaethedig oedd sicrhau **bod strwythurau llywodraethu lleol yn chwarae rhan weithredol** yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r model tai a arweinir gan y gymuned. Hynny yw, mynegwyd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gefnogaeth a chydweithrediad gan gymunedau a chynghorau tref a chymuned. Mynegodd rhai ymatebwyr fod cefnogaeth a gwir gyfranogiad y rhai sydd â'r ddealltwriaeth orau o'u hanghenion cymunedol yn allweddol i annog cyfranogiad pellach yn y model arfaethedig.

Roedd llawer o'r farn bod **hyrwyddo** a marchnata budd y **model tai** yn elfen bwysig o ran sicrhau cyfranogiad. Cyfeiriodd llawer at y cyfryngau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan y rhai y mae'r materion tai yn effeithio arnynt fwyaf, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol (ar gyfer pobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd prynu neu rentu tŷ cyntaf) a phapurau bro lleol.

Awgrymodd llawer fod **cyfarfodydd cyhoeddus** yn ffordd effeithiol ac ymarferol o ymgysylltu â phobl leol wrth ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau arfaethedig.

Soniodd ymatebwyr y byddai **grantiau ariannol** a chyllid yn fwy cyffredinol yn annog pobl i gymryd rhan yn y modelau arfaethedig. Teimlai llawer fod angen buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i ddangos ymrwymiad i'r mater, ac er mwyn gwireddu model cynaliadwy sy'n hyfyw yn ariannol. Gallai hyn gynnwys grantiau neu gyllid cyfalaf uniongyrchol, a chymhellion ariannol eraill megis benthyciadau llog isel, caffael tir, a mesurau lleihau treth cyngor a threth trafodion tir.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod **angen ymchwil** er mwyn datblygu'r cynlluniau arfaethedig yn llawnach ac er mwyn datblygu model mwy effeithiol. Diben yr ymchwil fyddai datblygu gwell dealltwriaeth o’r sefyllfa bresennol a chasglu sylfaen dystiolaeth o fentrau tebyg. Cyfeiriwyd at ymchwil ar: lefel diddordeb y cyhoedd yn y model arfaethedig; faint o bobl y byddai angen i'r model tai eu cefnogi neu eu cartrefu; a lle mae'r sefyllfa ar ei mwyaf difrifol. Teimlwyd y byddai gwybodaeth fanylach am faterion o'r fath yn arwain at fwy o hyder ymhlith pobl leol.

Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau yn ymwneud â **pholisi neu reoleiddio** a fyddai'n annog pobl i gymryd rhan yn y model tai arfaethedig. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno eithriadau i'r rheolau cyfredol ynghylch pa ddibenion y gellir defnyddio tir ar eu cyfer.

- Cyflwyno mesurau deddfwriaethol i gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi mewn ardal.
- Rhoi hawliau a blaenoriaeth i gymunedau lleol dros asedau lleol.
- Gwneud caniatâd cynllunio yn haws i'w gael.
- Dileu'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) ar gyfer cwmnïau cydweithredol sy'n prynu eiddo.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai angen **cyflogi staff (e.e., swyddog tai) i oruchwylio** a threfnu'r model tai lleol er mwyn i'r cynllun weithio ac felly annog cyfranogiad. Roedd natur y swyddi a awgrymwyd gan ymatebwyr yn amrywio – dywedodd rhai bod angen staff i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad, eraill fel cymorth gweinyddol, ac eraill fel rheolwyr prosiectau cydweithredol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bod angen cyflogi staff a pheidio â dibynnu ar wirfoddolwyr er mwyn osgoi rhoi baich ar unigolion o ran capasiti gwirfoddoli. Ategwyd yr atebion hyn weithiau gan awgrym o gefnogaeth gyffredinol gan Lywodraeth Cymru, megis drwy arweinyddiaeth a darparu sgiliau a gwybodaeth i alluogi modelau tai lleol i lwyddo.

Cwestiwn 3: Beth yw'r heriau wrth geisio cynnal digon o fuddsoddiad a diddordeb lleol mewn mentrau cymdeithasol?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Roedd llawer o ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn hwn fel un a oedd yn gofyn am heriau wrth i fentrau cymdeithasol brynu eiddo er mwyn eu troi'n llety gwyliau yn hytrach na phrynu eiddo sydd eisoes yn dai haf. Wrth ystyried hynny, yr her a nodwyd gan ymatebwyr oedd y byddai'r cynllun yn **arwain at gynnydd yn y nifer o ail gartrefi yn yr ardal**. Teimlai llawer y byddai angen i lawer o dai ddod i mewn i berchnogaeth gymunedol er mwyn sicrhau unrhyw fanteision. Ystyriwyd bod hyn ynddo'i hun yn ychwanegu at y broblem lle mae gormod o ail gartrefi yn bodoli mewn cymunedau Cymraeg a phobl leol yn ei chael hi'n anodd cystadlu ar y farchnad dai agored.

Nodwyd bod **diffyg cyllid** gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r prosiect yn her bosib. Teimlwyd bod angen ymrwymiad ariannol sylweddol i gefnogi perchnogaeth eiddo gymunedol a bod y rheini sy'n ceisio gwerthu yn cael pris teg. Disgrifiodd llawer yr angen am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun prisiau eiddo sy'n codi'n gyflym.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai difaterwch neu **ddiffyg diddordeb pobl leol** yn her i lwyddiant y model arfaethedig. Roedd rhai o'r farn bod angen perswadio pobl leol i gymryd rhan naill ai oherwydd nad oes ganddynt hyder yn llwyddiant tebygol y cynllun neu nad ydynt yn ymwybodol o sut y byddai cynllun o'r fath yn gweithio. Am y rheswm hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai angen hyrwyddo enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus tebyg. Yn yr un modd, roedd llond llaw o sylwadau'n sôn y byddai diffyg cydlyniant ac uchelgais cymunedol yn rhwystr i lwyddiant y model arfaethedig.

Dwy her gydgysylltiedig a godwyd gan rai ymatebwyr oedd **dibyniaeth ar wirfoddolwyr** a **phrinder sgiliau**. Teimlwyd bod angen gweithwyr medrus i weithredu'r model a'i amrywiol

agweddau (e.e. cynllunio, hysbysebu, sgiliau cyfreithiol ac ati). Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd gan y cymunedau yr effeithir arnynt y sgiliau perthnasol a'r hyn o bryd i wireddu'r cynlluniau arfaethedig. Teimlai ychydig o ymatebwyr y byddai rheoliadau'n rhwystr. Er enghraifft, roedd rhai o'r farn bod angen help i lywio ceisiadau rheoleiddiol, caniatâd cynllunio, gwaith papur ac ati.

Roedd nifer fechan o'r ymatebwyr o'r farn **bod angen datblygu economaidd ehangach** yn eu hardal er mwyn darparu ateb cyfannol i'r broblem tai ac mai hyn oedd y flaenoriaeth. Soniodd yr ymatebwyr hyn am ffactorau fel yr angen am fwy o gefnogaeth i fusnesau lleol, cyflogau uwch, creu cyflogaeth newydd a chryfhau isadeiledd cymunedau er mwyn cefnogi pobl leol i fyw yn lleol.

Cwestiwn 4: Pa gymorth neu gymhellion allai Llywodraeth Cymru eu cynnig fel bod cynllun o'r fath yn ennyn diddordeb?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Ymhlith yr amrywiol awgrymiadau a gynigiwyd gan ymatebwyr ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gynnig cymorth i annog pobl i gymryd rhan flaenllaw mewn sefydlu ac arwain mentrau cymdeithasol neu gydweithredol, dyma'r ymatebion mwyaf cyffredin:

- Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd y gallai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth ariannol i fentrau cymdeithasol lleol i brynu stoc dai mewn ardaloedd lle ma' pobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad. Y tu hwnt i gymorth ariannol cyffredinol, awgrymodd rhai ymatebwyr fesurau ariannol mwy penodol megis benthyciadau fforddiadwy a rhyddhad treth cyngor a threth trafodiadau tir.
- Awgrymodd ymatebwyr y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu hyfforddiant a chanllawiau arbenigol i fentrau cymdeithasol sydd wedi'u sefydlu gan bobl leol, er mwyn cefnogi a datblygu eu sgiliau i sefydlu a phrynu stoc tai lleol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli cyllid, materion cyfreithiol, cynllunio, adeiladu a chynlluniau busnes ac ati.
- Grymuso ac annog rhanddeiliaid lleol megis awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned a'r mentrau iaith i chwarae rhan yn natblygiad mentrau cymdeithasol gan gynnwys y model tai. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod strwythurau cymunedol effeithiol eisoes ar waith a bod angen eu cefnogi.
- Bod angen hyrwyddo manteision y cynllun i bobl leol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl leol nid yn unig yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau lleol ond hefyd y' deall sut y gall fod o fudd iddynt hwy a'u cymuned. Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen rhannu arfer gorau, hynny yw, nod' modelau tebyg lle mae hyn wedi llwyddo o'r blaen er mwyn dangos i bobl leol sut y gallai model o'r fath weithio.
- Mesurau deddfwriaethol, megis llacio cyfreithiau cynllunio er mwyn ei gwneud yn haws adeiladu tai newydd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi blaenoriaeth ddeddfwriaethol i bobl leol er mwyn cael y cyfle i brynu eiddo lleol cyn eraill.

Cwestiwn 5: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Grŵp Llywio Arwerthwyr Tai yn ffordd ymarferol ac effeithiol o helpu arwerthwyr tai i chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu cymunedau Cymraeg?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd a o'dd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd yn cytuno'n gyffredinol â'r egwyddor o sefydlu grŵp llywio ac yn cynnig y "gall y grŵp llywio annog arwerthwyr tai i flaenoriaethu pobl leol". Roedd **cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o grŵp llywio** ymhlith nifer o'r ymatebwyr nad oeddent yn rhan o'r ymgyrch hefyd. Roeddent yn ystyried y byddai'r grŵp yn 'gymorth' ac yn 'fan cychwyn', er isel oedd y disgwyliadau o ran pa mor llwyddiannus fyddai'r grŵp wrth ddylanwadu ar arwerthwyr tai.

Roedd nifer o'r ymatebwyr nad oeddent wedi defnyddio'r templed ymgyrch (a hefyd rhai ymatebwyr templed a oedd wedi ehangu ar eu hateb) yn amheus o ba mor effeithiol y gallai grŵp llywio fod. Dywedodd llawer **fod arwerthwyr tai yn cael eu gyrru gan elw** ac y byddai hyn yn trechu unrhyw anogaeth neu arweiniad arall. Roedd amheuaeth ynghylch pa mor llwyddiannus fyddai unrhyw rôl i'r arwerthwyr tai. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn bendant na ddylai fod gan arwerthwyr tai unrhyw rôl.

Cynigiodd rai ymatebwyr syniadau neu **gamau gweithredu ar gyfer arwerthwyr tai** fel cynnig pecyn gwerthu cyfrwng Cymraeg yn unig, cynnig pecynnau gwybodaeth am yr ardal, rheoleiddio gwefannau gwerthu, a mwy o farchnata'n lleol. Awgrymodd rhai ymatebwyr eraill syniadau neu gamau gweithredu y tu hwnt i rôl yr arwerthwyr tai, gan ailadrodd atebion i gwestiynau eraill.

Cwestiwn 6: Sut all arwerthwyr tai gael eu hannog neu eu cymell i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cafwyd amrywiaeth o syniadau ond ar y cyfan, nid oedd yr ymatebwyr yn manylu arnynt. Dywedodd sawl ymatebydd nad oeddent yn siŵr neu na allent feddwl am gamau gweithredu. Ymhlith yr awgrymiadau a dderbyniwyd roedd:

- Cael **cod ymddygiad** neu gynllun trwyddedu arwerthwyr tai.
- Dylid cael **cymhelliant ariannol, comisiwn uwch neu daliad** am werthu i brynwyr lleol – er na wnaeth ymatebwyr ymhelaethu ar sut y byddai hyn yn gweithio.
- Rhoi mwy o wybodaeth i arwerthwyr tai am y bygythiad i gymunedau, ac felly apelio at eu moesau.
- Derbyn cydnabyddiaeth o'u haelodaeth o'r grŵp.
- Amlinellu manteision ymuno a'r grŵp, a gallai hyn gynnwys gwella eu henw da, marchnata, brandio.

Gwnaeth sawl ymatebydd ailadrodd eu hateb i'r cwestiwn blaenorol a mynnu na ddylai arwerthwyr tai fod yn rhan o unrhyw grŵp llywio. Roedd eraill o'r farn na fyddai arwerthwyr tai, yn enwedig y rhai cenedlaethol, yn cael eu perswadio i ymuno.

Cwestiwn 7: A fyddai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd eiddo?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a wnaeth ymateb gan ddilyn templed ymgyrch a'r rheini nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, o'r farn y **gallai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno eu helpu** i gael mynediad at y farchnad. Aeth nifer o'r ymatebwyr ymlaen i egluro eu bod yn credu bod angen i'r cyfnod hwn fod **o leiaf ychydig wythnosau**.

Er y cytundeb cyffredinol, roedd pryderon na fyddai cyfnod byr i weld eiddo yn gwneud llawer o wahaniaeth gan mai **diffyg tai fforddiadwy** a phrisiau tai uchel oedd y prif fater oedd yn rhwystro pobl leol rhag cael mynediad at farchnadoedd eiddo. Dywedodd ymatebwyr hefyd y byddai cynllun o'r fath yn wynebu rhwystrau gan y byddai arwerthwyr tai unigol yn ceisio cael y pris gorau ac y byddent yn aros am gyfnod hwy am bris uwch.

> *Byddai [yn helpu], ond nid oes rhaid i'r gwerthwr werthu i rywun lleol a gall wrthod cynnig gan ei fod yn amau y bydd un gwell yn dod unwaith y bydd yr eiddo wedi'i hysbysebu'n ehangach.*

Cwestiwn 8: Beth arall allai helpu i wneud yn siŵr bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad dai?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch.

Roedd dau brif thema, a'r rhain yn brif themâu o'r ymatebion ymgyrch. Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen **treth cyngor uwch ar ail gartrefi** gyda nifer o'r ymatebwyr yn sôn bod angen cynnydd sylweddol er mwyn i hyn gael effaith. Yr ail brif thema oedd y dylai cynllun benthyciadau ecwiti **Prynu Cartref - Cymru fod ar gael i bob prynwr lleol** ac yn fwy cyffredinol, sicrhau cymorth ariannol digonol i deuluoedd ifanc Cymraeg allu prynu neu rentu eiddo yn fforddiadwy yn eu cymuned eu hunain.

Roedd y sylwadau cyffredinol eraill a wnaed gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- Sylwadau’n ymwneud â’r angen am weithredu i wella swyddi mewn cymunedau fel bod cyflogau uwch ar gael.
- Sylwadau ar newidiadau i’r drefn gynllunio, gan gynnwys gorfod cael caniatâd cynllunio i droi tŷ yn ail gartref neu’n llety gwyliau tymor byr, a gorfod cael caniatâd i droi ail gartref yn fusnes llety gwyliau tymor byr. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid datganoli grymoedd cynllunio gwlad a thref i awdurdodau cynllunio lleol.
- Cefnogi ac ymchwilio dulliau amgen o ariannu pryniant tŷ ac o fenthyg arian
- Ymyraethau yn y farchnad rhentu tai fel bod rhenti eiddo preifat yn fwy fforddiadwy a bod eiddo addas ar gael.
- Gosod cap ar nifer y tai haf neu lety gwyliau tymor byr mewn cymunedau.
- Cefnogi cynlluniau hunan adeiladu ac ymdrechion i adnewyddu tai ac adeiladau gwag.

Cwestiwn 9: Sut all Llysgenhadon Diwylliannol ymgysylltu ar lefel gymunedol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a datblygu gwell dealltwriaeth o’n diwylliant, treftadaeth a’n hiaith?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o’r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o’r ymgyrchoedd) â’r rhai a ddeilliodd o’r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch.

Cafodd tri phrif ymateb eu crybwyll yn llawer amlach nag unrhyw un arall:

- Y dylai llysgenhadon diwylliannol gael hyfforddiant arbenigol ar sut i gynrychioli hanes diwylliannol a chymdeithasol eu hardal mewn ffordd sy’n berthnasol i’w cymuned leol. Awgrymodd llawer y dylid achredu'r hyfforddiant hwn.
- Ei bod yn bosibl dod yn llysgennad diwylliannol yn wirfoddol. Hynny yw, nad yw hon yn rôl a gynigir i bobl benodol ond y gall unrhyw un ddod yn llysgennad.
- Creu 'map byw' ar-lein lle gellir dod o hyd i’r ardaloedd y mae’r llysgenhadon diwylliannol yn gweithredu ynddo.

Ar wahân i'r ymatebion cyffredin hyn, cynigiwyd amrywiaeth o awgrymiadau eraill gan ymatebwyr:

- Dylai fod yn hawdd cael gafael ar lysgenhadon diwylliannol a dylent gynnal perthynas dda â'u cymuned. Gallai hyn fod trwy gynnal digwyddiadau i'r gymuned gyfan ymgysylltu â nhw a meithrin ymdeimlad o falchder mewn diwylliant a hanes lleol.
- Yn yr un modd, dylai llysgenhadon diwylliannol allu ymgysylltu â phob agwedd o’u cymuned a chynrychioli hyn yn eu rôl fel llysgennad. Pwysleisiodd rhai bod angen i lysgenhadon diwylliannol gynrychioli eu cymuned yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys pobl o wahanol grwpiau oedran, cefndiroedd ethnig, crefydd ac ati.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai llysgennad diwylliannol ddod o'r ardal y mae’n ei gynrychioli – neu wedi bod yn byw yno am gyfnod sylweddol o amser. Teimlwyd y byddai gan bobl o’r tu hwnt i’r gymuned wybodaeth lai arbenigol a phersonol am yr ardal a'i hanes.
- Nodai rhai y dylai llysgenhadon diwylliannol fod yn rôl gyflogedig yn hytrach na rôl wirfoddol.

- Dylai gwaith llysgenhadon diwylliannol a’u pwrpas gael ei hyrwyddo i'r gymuned er mwyn codi eu proffil. Awgrymodd rhai y dylid hyrwyddo rôl y llysgennad diwylliannol yn benodol i newydd-ddyfodiaid i'r gymuned (yn enwedig os ydynt yn prynu ail gartref).
- Mynegodd llawer o ymatebwyr fanteision defnyddio strwythurau cymunedol sy’n bodoli eisoes. Yn benodol, teimlai rhai bod sefydliadau sydd eisoes yn bodoli fel yr Urdd, y mentrau iaith, a chynghorau tref a chymuned lleol eisoes yn cyflawni llawer o waith y llysgenhadon diwylliannol arfaethedig. Awgrymodd rhai, felly, y dylai'r strwythurau cymunedol presennol hyn gael eu cryfhau a'u dathlu yn hytrach na dyblygu gwaith er mwyn galluogi cynrychiolaeth ddiwylliannol ac addysg gyhoeddus ar raddfa leol.
- Dylai newydd-ddyfodiaid i gymunedau gael eu cynnwys a’u croesawu’n uniongyrchol gan lysgenhadon diwylliannol er mwyn gweithio gyda'r rhai yr ystyrir eu bod fwyaf tebygol o ymwneud llai â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai llysgenhadon diwylliannol ddarparu 'pecynnau croeso' i newydd-ddyfodiaid. Awgrymodd rhai hefyd y dylai gwybodaeth am y Gymraeg, a manteision ei defnyddio, gael ei blaenoriaethu'n benodol gan y llysgenhadon diwylliannol - er enghraifft, drwy gynnig gwersi Cymraeg am ddim i newydd-ddyfodiaid.

Serch hynny, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynllun arfaethedig. Nodwyd nifer o resymau dros anghytuno, gan gynnwys: pryder ynghylch dyblygu gwaith sy'n bodoli eisoes; teimlo bod y cynllun hwn yn aneffeithlon wrth ddelio â'r anghydraddoldeb economaidd sy'n achosi'r broblem tai; bod y cynnig yn afrealistig wrth feddwl y byddai newydd-ddyfodiaid yn ymgysylltu â’r llysgenhadon; teimlo bod cynigion o'r fath yn rhy hwyr i fynd i'r afael yn ddigonol â'r broblem tai.

Cwestiwn 10: Pa ffactorau penodol ddylai'r comisiwn eu hystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o’r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o’r ymgyrchoedd) â’r rhai a ddeilliodd o’r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Nododd ymatebwyr bod angen mesurau i **leihau neu gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi** mewn cymunedau. Cynigiodd rai sylwadau manylach yn awgrymu monitro canran y tai a oedd yn ail gartrefi mewn cymunedau a gosod uchafsymiau neu ‘gapio’ y niferoedd hynny.

Cynigiodd ymatebwyr bod effaith **mewnfudo** yn ffactor bwysig y dylai'r comisiwn ei ystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol. Cyfeiriodd ymatebwyr at dueddiadau diweddar ers y pandemig yn cynnwys canfyddiad bod cynnydd wedi bod yn nifer y gweithwyr a allai weithio’n hyblyg a oedd eisiau byw mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol atyniadol. Cynigiodd rai ymatebwyr fesurau i liniaru effeithiau mewnfudo, er enghraifft cynnig **addysg neu wybodaeth i newydd-ddyfodiaid am y Gymraeg a’i diwylliant** (e.e. ‘pecynnau croeso’ neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith) a chynnig **gwersi Cymraeg am ddim** iddynt. Awgrymodd rai ymatebwyr y dylid ystyried gosod amodau ieithyddol ar newydd-ddyfodiaid a oedd am brynu tai, neu osod isafswm o gyfnod preswyl cyn bod unigolion yn cael yr hawl i brynu tai mewn cymunedau Cymraeg.

Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i **gefnogi a hybu defnydd o'r Gymraeg** mewn cyd-destunau cymdeithasol, gan gynnwys ar fuarth ysgolion, yn y cartref, trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol ac mewn cymunedau yn gyffredinol.

Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r **defnydd o ddata a thystiolaeth** fel sail ar gyfer gweithredu a monitro unrhyw fesurau a gyflwynir. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys cyfeiriadau at bwysigrwydd llunio rhagolygon gan dynnu ar arbenigedd cynllunwyr ieithyddol.

Roedd pwysigrwydd **ffactorau economaidd** yn amlwg yn yr ymatebion yn enwedig wrth drafod yr angen i **leihau allfudo** ymysg pobl ifanc a phobl oed gwaith. Cyfeiriodd ymatebwyr at:

- Yr angen i sicrhau **swyddi lleol o safon a chyflogau da**.
- Osgoi gorddibyniaeth ar ddiwydiannau tymhorol fel twristiaeth.
- Yr angen i **gefnogi a chymell busnesau a** oedd yn gweithredu neu'n cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i ystyried **tueddiadau economaidd**, a'u heffeithiau cadarnhaol a negyddol posib; yn enwedig y cynnydd yn y patrwm o weithio o adref neu weithio hybrid. Roedd rhai o'r farn bod y patrwm hwn yn cynnig cyfle i geisio **denu Cymry Cymraeg i symud (neu ddychwelyd)** i gymunedau Cymraeg. Yn gysylltiedig â hynny, nododd ymatebwyr bod angen sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol, gyda rhai yn nodi y dylid rhoi blaenoriaeth i Gymry Cymraeg.

Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, pa heriau fydd y comisiwn yn eu hwynebu?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch. Fodd bynnag roedd un thema a oedd yn fwy amlwg mewn ymatebion ymgyrchoedd, felly nodir hyn isod.

Yr her a godwyd amlaf gan yr ymatebwyr oedd y byddai **diffyg cyllid** i weithredu cynigion / argymhellion y Comisiwn mewn modd a fyddai'n cael effaith gadarnhaol sylweddol. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr hyn at faint yr her (a nifer yr heriau gwahanol), gan nodi pryderon ei bod yn rhy hwyr i rai cymunedau gan fod sefyllfa'r iaith wedi dirywio gymaint.

Nododd ymatebwyr y byddai gwrthsefyll **gwrthwynebiad gan unigolion a sefydliadau a fyddai'n cael eu heffeithio** gan y cynigion ac argymhellion hefyd yn her y byddai angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei hwynebu. Nododd nifer o'r ymatebwyr hyn y gallai heriau cyfreithiol ac ariannol ddeillio gan unigolion a sefydliadau a fyddai'n gwrthwynebu'r cynigion / argymhellion, yn cynnwys landlordiaid a pherchnogion ail gartrefi ac eiddo. Yn gysylltiedig â hyn, nododd nifer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â lefel **grym y farchnad dai**, a oedd yn gwneud maint yr her yn sylweddol hyd yn oed pe byddai'r cynigion yn cael eu gweithredu.

> *"Diffyg cyllid. Methu ymateb yn ddigon cyflym i'r farchnad. Diffyg dealltwriaeth go iawn o'r sefyllfa. Diffyg pwerau i effeithio'r farchnad tai (dyma'r her go iawn na? Y ffaith bod yna ffactorau economaidd tu hwnt i'm grym sydd yn gyrru prisiau lan)."*

Cyfeiriodd ymatebwyr at **rwystrau gwleidyddol a gweithredol** i weithredu'r cynigion / argymhellion, gan gynnwys:

- Gwrthwynebiad tebygol gan rai pleidiau a grwpiau gwleidyddol a allai lesteirio gwaith y comisiwn.
- Rhwystrau systemig yn deillio o arafwch neu wendid prosesau gweithredu (e.e. prosesau cynllunio, prosesau ymgynghori).

Pwysleisiodd ymatebwyr bod diffyg **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth** o sefyllfa'r Gymraeg a'r ffactorau sy'n ei heffeithio, gan gynnwys ymysg trigolion Cymru, yn her sy'n wynebu'r comisiwn. Nododd nifer o ymatebwyr y byddai'n her i newid canfyddiadau pobl o ganlyniad i apathi neu ddiffyg diddordeb ymysg y boblogaeth a diffyg sylw yn y cyfryngau. Nododd rai hefyd bod peryg y byddai rhai unigolion a sefydliadau yn cam-ddehongli neu'n cam-gyflwyno cynigion / argymhellion y comisiwn, a allai greu rhagor o wrthwynebiad.

Nododd rhai ymatebwyr bod **ymgysylltu'n effeithiol gyda'r boblogaeth leol** yn her, er mwyn sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu gwahaniaethau fesul cymuned ac yn ystyried yr amrywiaethau mawr o ardal i ardal.

Ymysg ymatebion a oedd yn dilyn templed ymgyrch, nododd rhai eu bod o'r farn y byddai'n her i **sicrhau bod sefydliadau yn dryloyw wrth adrodd** ac yn gwneud hynny mewn modd a fyddai'n adlewyrchu sefyllfa fregus y Gymraeg.

Cwestiwn 12: A oes yna unrhyw enghreifftiau, arferion neu achosion o ddiddordeb a allai helpu'r comisiwn i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Nododd ymatebwyr enghreifftiau o effeithiau **pryniannau ail gartrefi** a **mewnfudo** yn gyffredinol ar gymunedau, gan gynnwys y sgil effeithiau ar broffil ieithyddol ardaloedd, defnydd iaith a gwasanaethau lleol. Cyfeiriodd rai ymatebwyr at yr effeithiau yr oeddent wedi eu harsylwi mewn trefi neu bentrefi penodol dros y blynyddoedd.

> *"Dwi'n byw mewn pentre' glan môr yng ngorllewin Cymru. Ma tua 75% o'r tai lleol yn eiddo naill ai i bobl fel ail gartrefu neu yn dai haf. Ma'r pentre' yn wag yn ystod misoedd y Gaeaf ac mae'r gymuned gynhenid yn crebachu. Ma unrhyw dai sy'n dod ar werth yn aml wedi eu gwerthu am bris afresymol o uchel o fewn oriau e.e. gwerthwyd tŷ teras, dwy stafell wely am £460,000 yn ha' diwetha'."*

Cynigiodd ymatebwyr enghreifftiau o effeithiau mewnfudo ac ail gartrefi ar **ddefnydd o'r iaith** Gymraeg yn gymunedol ac ar newid arferion iaith mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr y dylai'r comisiwn ystyried enghreifftiau o arfer dda a llwyddiannau clybiau chwaraeon lleol a mudiadau diwylliannol (e.e. y mentrau iaith) wrth hybu defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae mewnfudo sylweddol wedi digwydd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r comisiwn ymgynghori

ymhellach â mudiadau wrth weithredu unrhyw gynigion, gan hyrwyddo enghreifftiau o deuluoedd sydd wedi mewnfudo i gymunedau a dysgu'r iaith.

> *"...edrych a dysgu o enghreifftiau o ddysgwyr sydd wedi llwyddo i integreiddio i mewn i'w cymunedau - enghreifftiau gwych ledled Cymru, yn enwedig yn rhai o'r ardaloedd sy'n cael sylw yma. Straeon am bethau - e.e. pwyllgorau, cyfarfodydd a phethau sydd wedi bod yn uniaith erioed - yn gorfod newid o Gymraeg yn unig i ddwyieithog - mae angen sicrhau bod hyn ddim yn digwydd er mwyn sicrhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Nid yr ateb ydi troi i'r Saesneg pan mae 1 person yn yr ystafell ddim yn ei deall - yr ateb ydi cynnig cymorth i ddysgu, mwy o gyfleusterau cyfieithu ar y pryd ayyb - a hyrwyddo bod y cyrsiau a'r cymorth a'r cyfleusterau yma i gyd ar gael."*

Nododd ymatebwyr y dylai'r comisiwn archwilio tystiolaeth a thynnu ar brofiad **arbenigwyr yn y maes sosio-ieithyddol.** Cyfeiriodd nifer at astudiaethau ac enghreifftiau penodol o Gymru (e.e. ymchwil rhaglen ARFer Prifysgol Bangor, gwerthusiad diweddar o raglen Arfor) a thu hwnt (e.e. ymchwil o'r Gaeltacht yn Iwerddon). Cyfeiriodd rai at enghreifftiau o ymdrechion lleol i gynyddu ymwybyddiaeth ieithyddol a diwylliannol (e.e., trwy becynnau gwybodaeth) ac ymchwil ar wahanol ddulliau o wneud hynny.

Cyfeiriodd ymatebwyr at enghreifftiau o **lwyddiannau a heriau o'r byd addysg cyfrwng Cymraeg**. Cyfeiriodd nifer at enghreifftiau o ysgolion, ag asedau cymunedol eraill, yn gorfod cau yn sgil newidiadau demograffeg wedi eu hachosi gan fewnfudo, allfudo a phryniannau ail gartrefi. Yn ogystal, nododd ymatebwyr y dylai'r comisiwn ystyried sut i gefnogi, elwa ar, a chodi ymwybyddiaeth o, lwyddiannau **addysg drochi** ac addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd o Gymru.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- **Sgil effeithiau diffyg tai fforddiadwy** a'r angen i fynd i'r afael â hynny.
- **Busnesau sydd wedi ffynnu** trwy gofleidio a chynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Enghreifftiau o bolisïau economaidd, cynllunio ac addysg lleol** y dylai'r comisiwn eu hystyried.
- **Sgil effeithiau diffyg swyddi** a chyflogau da yn lleol a'r angen i fynd i'r afael â hynny.
- Enghreifftiau o **enwau llefydd ac eiddo Cymraeg yn cael eu newid i'r Saesneg** gan berchnogion eiddo.

Cwestiwn 13: Beth (arall), ynghyd â chymorth tai, y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Roedd addysg yn un o'r prif themâu. Yr awgrym mwyaf poblogaidd oedd **gwau addysg am hanes a diwylliant yr ardal leol i gwricwlwm ysgolion.** Teimlwyd nad oedd pobl ifanc weithiau'n ymwybodol o gyfoeth eu hanesion lleol eu hunain, ac awgrymodd llawer o'r

ymatebwyr y gallai addysgu pobl ifanc rymuso'r genhedlaeth iau i werthfawrogi eu cymunedau. Cafwyd awgrymiadau eraill yn ymwneud ag addysg a oedd yn cynnwys: cynyddu mynediad at addysg Gymraeg; gwella ansawdd addysg uwchradd leol; a chyflwyno amrywiaeth ehangach o gyrsiau addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn lleol fel nad oes rhaid i bobl ifanc adael eu cymuned leol i gael addysg uwch.

Thema amlwg arall ymhlith yr ymatebion oedd **pwysigrwydd cynnal a gwella'r modd y darperir gwasanaethau lleol** er mwyn gwneud yr ardaloedd dan sylw yn lleoedd hyfyw i bobl ifanc fyw ynddynt. Mae hyn yn cynnwys darparu cludiant cyhoeddus rhad, rheolaidd a dibynadwy; creu trefi bywiog; cynnal canolfannau cymunedol aml-bwrpas, ysgolion lleol ac ati. Soniodd llawer hefyd am wella’r cyswllt rhyngrwyd a band eang, sy’n araf i nifer o’r ymatebwyr mewn ardaloedd gwledig. Codwyd yr awgrymiadau hyn yn aml yng nghyd-destun y cynnydd mewn gweithio’n hyblyg a gweithio o gartref, a’r angen i sicrhau bod cymunedau yn medru manteisio ar drefniadau gwaith mwy hyblyg.

Thema gyffredin arall oedd **sylwadau’n ymwneud â’r economi ac arian**. Un awgrym a godwyd gan sawl ymatebydd oedd rhoi cyllid i bobl ifanc ddechrau eu busnesau eu hunain yn eu hardal leol. Roedd llawer o'r farn bod angen y cymhelliant ariannol hwn er mwyn gwneud menter leol yn opsiwn ymarferol. Soniodd llawer o ymatebwyr hefyd am yr angen i wella cyfleoedd gwaith lleol yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu nifer y swyddi sydd ar gael, yn ogystal â gwella cyflogau sydd, ym marn llawer o’r ymatebwyr, yn disgyn y tu ôl i ardaloedd mwy trefol. Amlinellodd rhai hefyd yr angen i arallgyfeirio'r economi leol drwy gyflwyno ystod ehangach o swyddi sy'n denu pobl ifanc ac sy'n hyfyw ar gyfer y dyfodol, megis arloesi ym maes technoleg a datgarboneiddio. Cafwyd awgrymiadau eraill yn ymwneud â'r economi a oedd yn cynnwys: datganoli swyddi llywodraeth a diwydiant i ranbarthau gwledig; cynnig cyfleoedd hyfforddi o ansawdd uchel i bobl ifanc leol; gwneud y Gymraeg yn orfodol ar gyfer rhai swyddi er mwyn rhoi mantais i siaradwyr Cymraeg ifanc. Daeth rhai ymatebwyr â'r mater yn ôl i’r maes tai drwy ddisgrifio'r angen i bobl ifanc allu cael gafael ar dai fforddiadwy, a'r angen i reoleiddio ail gartrefi.

Yn olaf, roedd y **thema diwylliant a chymuned** yn amlwg drwy’r ymatebion. Yn benodol, pwysleisiodd llawer am yr angen i hyrwyddo i bobl ifanc bwysigrwydd aros ac ymgartrefu o fewn eu cymuned a'r manteision cymdeithasol a diwylliannol o wneud hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â rhai ymatebwyr a oedd yn dymuno gweld mwy yn cael ei wneud i feithrin balchder mewn ardaloedd lleol ymhlith pobl ifanc. Disgrifiodd llawer o ymatebwyr yr angen i wella'r gweithgareddau hamdden a diwylliannol sy'n digwydd mewn cymunedau gwledig, a nododd llawer o’r ymatebwyr bod gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn benodol yn rhan bwysig o gefnogi pobl ifanc i aros, byw a gweithio yn eu cymunedau.

Cwestiwn 14: A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar unrhyw un o'r cynlluniau a nodir uchod?

Nid oedd yna themâu amlwg yn yr ymatebion i’r cwestiwn hwn, a gadawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn yn wag, neu nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwanegol y tu hwnt i atebion cwestiynau cynharach. Y prif themâu oedd:

- **Ffocws ar wella’r economi a swyddi.** Roedd nifer o’r ymatebwyr o’r farn y dylid canolbwyntio mwy ar fuddsoddi mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol a sicrhau bod

swyddi da ar gael i bobl leol. Roedd hyn i'w weld yn allweddol ochr yn ochr â phob un o'r cynlluniau arfaethedig.

- **Hybu'r iaith a diwylliant.** Eto, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylid canolbwyntio ar weithredoedd i gefnogi a hybu diwylliant Cymru ochr yn ochr â'r cynlluniau dan sylw. Teimlwyd y dylid cefnogi pobl sy'n symud i gymunedau i ddysgu am Gymru ac i ddysgu Cymraeg. Yna, yn ail, teimlwyd y byddai cefnogi a gwella'r diwylliant a'r iaith yn gwneud yr ardaloedd yn fwy deniadol ac atyniadol i bobl ifanc. Roedd nifer fechan o'r ymatebwyr yn cymharu'r cysyniad o ddiogelu iaith a diwylliant gyda diogelu'r amgylchedd a natur.
- Fel mewn atebion i'r cwestiynau blaenorol, cafwyd awgrymiadau eto gan ymatebwyr ynghylch sut i sicrhau bod mwy **o dai ar gael i bobl leol.** Roedd y rhain yn cynnwys adeiladu rhagor o dai cymdeithasol, ail bwrpasu adeiladau at ddefnydd preswyl a chaniatáu i bobl leol adeiladu eu tai hunain.

Manteisiodd rhai ar y cyfle yng Nghwestiwn 14 i roi adborth cadarnhaol am yr ymgynghoriad ac aeth rhai ymatebwyr ymlaen i annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym ar y cynigion.

Cwestiwn 15: Pa fath o ymyraethau lleol hoffech chi eu gweld i hyrwyddo pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, annog pobl i'w cadw ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld yn ein cymunedau?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cafwyd pedwar prif awgrym ar ymyraethau lleol (ac roedd y rhain yn rhan o'r ymatebion ymgyrch) sef (i) **deddfu** i warchod enwau lleoedd ac eiddo (ii) **dirwyon** wrth newid enw tŷ; (iii) gorfodaeth i wneud **cais cynllunio** cyn newid enw tŷ a (iv) bod **monitro** newid enwau tai yn rhan o rôl llysgenhadon diwylliannol.

Os oes bwriad i newid enw cynhenid Cymraeg yna dylid cael caniatâd cynllunio ac fe ddylid gwneud hi'n hollol amlwg mae dim ond mewn eithriadau prin iawn y caniateir hynny, a bod yna ragdybiaeth gref iawn yn erbyn unrhyw newid o'r fath.

Roedd y **thema addysg** hefyd yn amlwg, ac ymatebwyr eisiau gweld enwau lleoedd a'u pwysigrwydd i hanes Cymru yn cael ei gynnwys yn fwy cadarn yn y Cwricwlwm ysgol newydd. Teimlid bod angen ymdrechion i addysgu ac i roi mwy o wybodaeth i bobl a oedd yn symud i mewn i ardaloedd, ac y byddai pecyn croeso i bob perchennog newydd, (yn enwedig os nad ydynt yn lleol), yn nodi hanes a chyd-destun y lle yn gam pwysig ledled Cymru.

Roedd rhai o'r farn y dylid rhoi rhagor o bwerau i gynghorau reoli'r sefyllfa enwi eiddo, a busnesau, a bod angen mynd i'r afael â **defnydd enwau gan y sector preifat**. Yn yr un

modd, roedd rhai ymatebwyr am weld camau'n ymwneud â threfn enwau lleoedd ar arwyddion, gyda ffocws ar enwi atyniadau a'r hyn sy'n cael ei arddangosodd ar arwyddion twristiaeth brown; rhoi sylw i enwau lleoedd ar fapiau, a chydweithio gyda Swyddfa'r Post ar yr enwau sy'n dderbyniol ac yn cael eu defnyddio.

Cwestiwn 16: Beth arall ddylai gael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cynigiodd ymatebwyr y dylid **gosod amodau ar unigolion sydd eisiau prynu tai mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol**, er mwyn diogelu'r Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau y dylai newydd-ddyfodiaid ddysgu'r Gymraeg neu gymryd rhan mewn gweithgareddau i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant. Cafwyd awgrymiadau i gynnig cefnogaeth ariannol i siaradwyr Cymraeg a rhoi blaenoriaeth iddynt brynu a rentu tai yn lleol.

Cyfeiriodd ymatebwyr eto at **gyfyngu'r niferoedd o ail gartrefi** mewn ardal ac at sicrhau bod mwy o dai ar gael i bobl leol. Nododd rhai ymatebwyr bod angen ystyried sefyllfa brodorion nad oeddent yn siarad Cymraeg. Cyfeiriodd nifer at yr angen am Gynlluniau Datblygu Lleol cadarnach sy'n sicrhau bod rhaid i bob datblygiad atgyfnerthu'r diwylliant lleol a'r iaith Gymraeg.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at effaith andwyol cynnydd mewn costau rhent, gan gynnig y dylid **gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu tai i'w rhentu** am brisiau sy'n fforddiadwy. Nododd ymatebwyr bod gan gynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol rôl allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, ac y byddai'n fuddiol i greu adnoddau a chefnogaeth benodol iddyn nhw, er mwyn gallu adeiladu ar y rhwydweithiau cymunedol estynedig sydd ganddynt a bod angen adnoddau a chefnogaeth benodol ar eu cyfer.

Nododd ymatebwyr y dylid **hybu a hyrwyddo busnesau** sy'n flaengar o ran cefnogi eu gweithwyr i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Syniad arall oedd targedu a chefnogi pobl ifanc – a Chymry Cymraeg – sydd **eisiau dychwelyd i'r cymunedau lle y magwyd hwy.**

Cwestiwn 17: Pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud i'r cynigion sydd yn y cynllun hwn er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cyfeiriodd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn at eu hymatebion blaenorol; ni chaiff yr ymatebion hynny eu hail adrodd yn yr adran hon. Nododd rhai ymatebwyr nad oedd ganddynt awgrymiadau ar sut i gryfhau'r cynigion, neu nad oedd angen eu cryfhau.

Ymysg yr ymatebwyr a wnaeth gynnig sylwadau eraill, mynegodd rhai farn bod angen **sicrhau bod y cynigion yn gryf** ac yn cymell unigolion a sefydliadau i'w gweithredu. Cyfeiriodd rai at yr angen i ddeddfu er mwyn sicrhau hyn a nododd rhai ymatebwyr y dylid **cryfhau gweithdrefnau cynllunio lleol** er mwyn gwireddu amcanion y cynigion.

Yn gysylltiedig â'r uchod, pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr **angen i weithredu ar frys**, o ystyried maint y dirywiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn nifer o gymunedau. Mynegodd ymatebwyr yr angen i weithredu ar fyrder trwy gyfeirio at dueddiadau demograffeg ac economaidd diweddar (e.e. y tueddiad i weithio o gartref a'r ffaith bod hynny yn gwneud ardaloedd gwledig yn fwy deniadol)**.**

Awgrymodd ymatebwyr y dylid newid y cynigion drwy **osod amodau ar unigolion a oedd eisiau prynu tai** mewn cymunedau Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau y dylai newydd-ddyfodiaid orfod ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg a / neu gymryd rhan mewn gweithgareddau i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant cyn gallu prynu tŷ mewn ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cynnwys **rhagor o gefnogaeth i siaradwyr Cymraeg** i fedru prynu tai ac aros o fewn eu cymunedau. Roedd eraill o'r farn mai **cefnogi trigolion lleol,** waeth beth fo'u hiaith, yw'r flaenoriaeth. Nododd rhai bod angen **hybu defnydd o'r Gymraeg**, gan gynnwys cefnogi amryw o faterion yn ymwneud ag addysg, gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon.

Ymysg yr ymatebion eraill, nodwyd yr awgrymiadau canlynol:

- Yr angen i ymgynghori'n effeithiol ar lefel leol.
- Rhoi grymoedd pellach i asiantaethau / rhaglenni (e.e. Arfor) i weithredu mewn ardaloedd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Ystyried arfer dda o ardaloedd eraill.
- Ystyried sut i ddelio â sefyllfaoedd sensitif lle mae Cymry Cymraeg sydd wedi symud i ffwrdd o'u hardaloedd genedigol yn berchen ar ail gartref drwy gysylltiadau teuluol neu drwy etifeddu eiddo.

Cwestiwn 18: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Nodir isod y themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y prif themâu a ddeilliodd o'r holl ymatebion (gan gynnwys ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn dilyn templed un o'r ymgyrchoedd) â'r rhai a ddeilliodd o'r ymatebion nad oedd yn dilyn templed ymgyrch, felly ni wahaniaethir rhyngddynt isod.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at eu hymatebion i gwestiynau blaenorol neu nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w hychwanegu. Ymysg y rheini wnaeth gynnig sylw, nododd ymatebwyr y materion canlynol:

- Bod angen gweithredu cryf ac ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg.
- Bod angen blaenoriaethu trigolion lleol a / neu siaradwyr Cymraeg yn y cynlluniau dan sylw.
- Sylwadau cyffredinol am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.
- Cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion a chefnogaeth i fentrau cydweithredol.
- Bod angen cryfhau prosesau cynllunio lleol er mwyn ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- Sylwadau am bwysigrwydd cael swyddi o safon o fewn cymunedau Cymraeg;
- Pryderon cyffredinol am rym y farchnad a sut all hynny gyfyngu ar lwyddiant unrhyw ymyraethau.
- Bod angen ymgynghori lleol effeithiol wrth weithredu'r cynigion.
- Bod angen deddf eiddo.
- Beirniadaeth o holiadur yr ymgynghoriad, gan gynnwys cymhlethdod yr iaith a'r cwestiynau.